

Ardaloedd cymunedol - benthyciadau di-log (Cymru yn unig)

Ynglŷn â'n cyllid

Mae ardaloedd gwyrdd megis parciau a choetiroedd angen cyllid rheolaidd er mwyn diwallu anghenion y bobl sy'n eu defnyddio, yn eu caru nhw ac yn dibynnu arnynt. Mae hyn yn helpu i ddatblygu cymunedau cryfach ar gyfer heddiw a gwell amgylchedd ar gyfer y dyfodol.

Gallwn gynnig benthyciadau di-log gwerth rhwng £10,000 a £50,000 ar gyfer syniadau busnes dichonadwy a fydd o fudd i'r gymuned gyfan a'r amgylchedd. Dylai benthyciadau, fel arfer, gael eu had-dalu o fewn pum mlynedd. Nid oes angen gwneud ad-daliadau yn ystod y flwyddyn gyntaf, pan fo'ch gweithgareddau yn eu camau cynnar. Os ydych chi wedi'ch lleoli mewn ardal fwy difreintiedig, neu os yw eich gwaith o fudd yn bennaf i aelodau mwy difreintiedig o'r gymuned, gallwch fod yn gymwys am gymorth grant posibl law yn llaw â'r benthyciad.

A yw eich sefydliad yn gymwys?

Rhaid i chi fod:

- Wedi'ch lleoli yng Nghymru.
- Yn berchen ar, yn rheoli, neu â mynediad at, ardal gymunedol y gall pobl ei defnyddio a'i mwynhau.
- Yn rhedeg eich sefydliad er budd y gymuned a'r amgylchedd, yn hytrach nag elw preifat. Os nad oes gennych statws elusennol, dylai eich dogfen gyfansoddiad neu lywodraethu ddangos bod eich sefydliad yn cael ei redeg er budd y gymuned.
- Eisiau datblygu neu gynyddu eich gweithgareddau masnachu i gynyddu eich incwm cynaliadwy.
- Yn cynnwys ystod eang o bobl leol yn eich gwaith, gan gynnwys aelodau mwy difreintiedig o'r gymuned.

Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

Ardaloedd Cymunedol

Rhaid i sefydliadau fod yn berchen ar, yn rheoli, neu â mynediad at, ardal gymunedol. Dylai eich syniadau ar gyfer gweithgareddau mentrus helpu i gryfhau eich sefydliad fel bod y gymuned gyfan yn gallu parhau i ddefnyddio a mwynhau'r ardal.

Cynllun busnes dichonadwy

Rydym eisiau cyllido sefydliadau sydd â syniadau busnes dichonadwy a fydd o fudd i'r amgylchedd a'r gymuned gyfan.

Canlyniadau cymunedol

Rydym eisiau cyllido sefydliadau sy'n sicrhau buddion cadarnhaol i'r bobl sy'n byw yn eu cymuned. Os hoffech, gallwch gyfeirio at [Fyngai Lles Cymunedol Co-op](#) neu [Fyngai Amddifadedd Lluosog Cymru](#) i ddangos sut mae eich sefydliad yn ymateb i faterion yn eich cymunedol leol.

Canlyniadau amgylcheddol

Rhaid i sefydliadau allu dangos eu bod yn sicrhau buddion amgylcheddol yn eu cymuned.

Cyfranogiad y Gymuned

Rhaid i sefydliadau allu dangos sut y maent yn cynnwys aelodau'r gymuned yn eu penderfyniadau ynglŷn â sut y maent yn cael eu rhedeg, a pha weithgareddau a gwasanaethau y maent yn eu cynnig.

Amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym eisiau cyllido sefydliadau a all ddangos sut y maent yn agored a chroesawgar i'r gymuned gyfan, ac yn mynd ati'n rhagweithiol i gynnwys pobl a all wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan.

Ar beth allwch chi wario'r arian?

Mae benthyciadau rhwng £10,000 a £50,000 ar gael i ddatblygu neu gynyddu eich gweithgareddau masnachu i gynyddu eich incwm cynaliadwy hirdymor fel bod eich sefydliad ar seiliau mwy cadarn yn ariannol. Rydym yn hyblyg ynglŷn â sut y dylai'r cyllid gael ei ddefnyddio. Gallai hyn fod tuag at gostau cyfalaf ar gyfer adeiladu neu adnewyddu, costau refeniw ar gyfer talu staff a all ddatblygu gweithgareddau masnachu, neu ar gyfer cyfalaf gweithio wrth i chi ddechrau ar eich gweithgareddau masnachu neu ddisgwyl am gyllid arall i gael ei dalu fel ôl-daliad. Gallwn drafod eich syniadau gyda chi mewn mwy o fanylder unwaith y byddwn wedi derbyn eich mynegiant o ddiddordeb.

Pa bryd bydd angen i ni ad-dalu'r benthyciad?

Rydym fel arfer yn disgwyl i fenthyciad gael ei ad-dalu o fewn pum mlynedd. Mewn rhai achosion, efallai y gallwn gynnig cyfnod ad-dalu hirach. Fodd bynnag, yn yr achos hwn efallai y bydd angen i ni godi llog. Nid oes angen gwneud ad-daliadau yn ystod y flwyddyn gyntaf, pan fo'ch gweithgareddau yn eu camau cynnar.

A ydych chi'n cynnig mathau eraill o gyllid ad-daladwy?

Gallwn ystyried ffurfiau eraill o gyllid ad-daladwy megis buddsoddi ecwiti mewn cynigion cyfranddaliadau cymunedol. Unwaith y byddwch wedi cyflwyno eich mynegiant o ddiddordeb, gallwn drafod hyn ymhellach.

Sut fyddwch chi'n penderfynu a yw fy sefydliad yn gymwys am grant law yn llaw â'r benthyciad?

Rydym yn seilio'r penderfyniadau hyn ar nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- Yr heriau sy'n wynebu eich cymuned, a sut mae eich sefydliad yn ymateb i'r heriau hyn
- Effaith amgylcheddol gadarnhaol eich sefydliad a sut fydd cyllid yn eich cefnogi i barhau â'ch gwaith yn fwy cynaliadwy.
- Y lefel o gymorth yr ydych chi'n ei chynnig i bobl sy'n wynebu heriau ychwanegol.

Sut wyf yn gwneud cais?

[Cyflwynwch eich mynegiant o ddiddordeb](#). Byddwn yn ei adolygu, ac os yw eich sefydliad yn gymwys, byddwn yn cysylltu â chi o fewn tair wythnos i drafod eich syniadau ymhellach. Os

yw ein cyllid yn gweddu'n dda i'ch sefydliad, a hoffech fynd ymlaen i'r cam nesaf, byddwn yn gofyn i chi gyflwyno cynllun busnes llawn ac unrhyw ddogfennau ategol perthnasol ac yn dechrau ar ein proses asesu.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd tîm Sefydliad Co-op a'n cynghorwyr yn Cyllid Cydweithredol a Chymunedol yn asesu eich cynllun busnes a'ch gwybodaeth ategol. I helpu ni gyda'n proses asesu, efallai y byddwn hefyd yn rhannu eich gwybodaeth ategol â rhanddeiliaid eraill gyda'r arbenigedd yn eich maes gwaith neu'ch ardal leol. Os yw eich sefydliad yn bodloni ein meini prawf a gall arddangos syniad busnes dichonadwy a fydd yn sicrhau buddion i'r gymuned gyfan a'r amgylchedd, gallwn yna ystyried argymell eich busnes i'n Bwrdd o Ymddiriedolwyr er mwyn iddo gymeradwyo cyllid. Os oes mwy o alw am ein cyllid ym mhob rownd o wneud penderfyniadau, mwy nag y gallwn ei ddiwallu, yna byddwn yn blaenoriaethu'r sefydliadau sy'n bodloni ein meini prawf orau ac sydd yn y sefyllfa orau i fynd ymlaen i'r cam nesaf yn y broses.

Fel rhan o'n proses benderfynu, byddwn hefyd yn cynnal gwiriad diwydrwydd dyladwy er mwyn trafod eich cynlluniau mewn mwy o fanylder a chytuno ar delerau buddsoddi terfynol, gan gynnwys amseroedd ac unrhyw rag-amodau ar gyfer rhyddhau ein cyllid

A allaf ddefnyddio'r cyllid hwn fel arian cyfatebol neu fel cyfraniad i brosiect mwy?

Ie, gallwch ddefnyddio'r cyllid hwn fel cyfraniad i brosiect mwy. Byddwn yn gofyn i chi am fanylion y prosiect a statws cyfraniadau eraill i'ch gwaith pan fyddwch yn gwneud cais. Pe bai ein cyfraniad ni yn gyfraniad cymharol fach i'ch prosiect yn gyffredinol, rydym fel arfer yn gofyn i chi sicrhau'r rhan fwyaf o'r cyllid sy'n weddill, neu sicrhau bod gennych gynlluniau i sicrhau'r cyllid sy'n weddill cyn y gallwn gymeradwyo benthyciad.

A oes yna ddyddiad cau ar gyfer ceisiadau?

Nac oes, gallwch gyflwyno mynegiant o ddiddordeb ar unrhyw adeg.

Beth os nad oes gan fy sefydliad gynllun busnes?

Os nad oes gan eich busnes gynllun busnes eto, byddwn yn awyddus o hyd i glywed eich syniadau, er na fyddwn yn gallu cynnig cyllid hyd nes y byddwn wedi gweld eich cynllun busnes. Ni allwn gynnig cymorth pwrpasol i helpu sefydliadau unigol gydag ysgrifennu eu cynllun busnes, er y gallwn roi cyngor i chi ynglŷn â pha fath o bethau y dylech eu cynnwys. Os oes angen rhagor o gymorth ar eich sefydliad i ddatblygu cynllun busnes, efallai y gall rhai o'r sefydliadau a restrir isod eich helpu.

Cymru

[Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru](#)

[Llais y Goedwig](#)

[Canolfan Cydweithredol Cymru](#)

DU gyfan

[The Hive](#)

[NCVO](#)

[Sefydliad Plunkett](#)

[Shared Assets](#)

Beth arall fyddwch chi'n dymuno ei weld fel rhan o'r broses asesu?

Ochr yn ochr â chynllun busnes, rydym hefyd, fel arfer yn disgwyl gweld dogfennau ategol eraill gan gynnwys:

- Dogfen lywodraethu ar gyfer eich sefydliad
- Cyfrifon blynyddol ar gyfer y ddwy i dair blynedd diwethaf
- Rhagolygon ariannol - dylai'r rhain gynnwys y refeniw o'ch gweithgareddau masnachu newydd, gan gynnwys ad-daliadau'r benthyciad gennym
- Amserlen waith ar gyfer unrhyw adeiladau newydd
- Unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol
- Cadarnhad o unrhyw gyllid arall, os yn berthnasol.